ATODIAD / ENCLOSURE
DD

## Adolygiad o'r Cofrestrau – Crynodeb o'r Casgliadau 2015

| Y Gofrestr Sefydlog | Cofrestr Datganiadau mewn Cyfarfodydd | Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch | Cofnod Hyfforddiant |
|---|---|---|---|
| 1. Enghreifftiau o beidio â datgan fel buddiant personol, statws fel llywodraethwyr ysgol, er gwaethaf y ffaith bod rhestr fewnol yr Awdurdod yn dangos bod yr Aelodau yn llywodraethwyr ysgol.<br>2. Cynghorwyr ddim yn darparu digon o fanylion ynghylch buddiant mewn tir yn 1.6. Mae angen mwy o fanylion ynghylch hyn ac os nad oes gan Gynghorydd unrhyw fuddiant mewn tir yna dylid datgan hynny fel "dim" neu "ddim buddiant". Efallai bod diffyg dealltwriaeth ymysg Gynghorwyr ynghylch yr hyn a olygir gan fuddiant mewn tir.<br>3. Mae byrfoddau a ddefnyddir ar gyfer cyrff allanol, elusennau a chymdeithasau yn aneglur. Dylai Aelodau nodi enw a chyfeiriad llawn y cyrff/elusennau y maent yn aelodau ohonynt. Fodd bynnag, dygodd un adolygwr sylw at y ffaith bod yr Awdurdod hefyd yn defnyddio byrfoddau ac o'r herwydd, efallai bod y Cynghorwyr yn | 1. Enghreifftiau o aelodau'n ticio'r blwch i ddweud bod ganddynt fuddiant ond dim manylion am y buddiant. A yw hyn oherwydd ansicrwydd ar eu rhan?<br>2. Dim digon o fanylion ynghylch beth yw'r buddiant personol a'r buddiant rhagfarnus.<br>3. Dryswch ynghylch buddiant sy'n rhagfarnu a'r hyn a olygir gan yr ymadrodd – yn arbennig pan yn siarad am deulu a ffrindiau.<br>4. Nid yw Aelodau yn rhoi digon o wybodaeth am natur y buddiant a sut mae'n ymwneud â'r eitemau ar y rhaglen.<br>5. Awgrymodd adolygwr y dylid monitro presenoldeb cynghorwyr mewn cyfarfodydd o gyrff allanol lle mae'r Aelodau'n cynrychioli'r cyngor. A fydd yr Aelodau hyn yn adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ôl cyfarfodydd o'r fath o gwbl?<br>6. Datganiadau diddordeb anghyson mewn cyfarfodydd ynghylch yr un materion - pleidleisio mewn rhai ac | 1. Ychydig iawn o ddatganiadau'n cael eu gwneud o hyd.<br>2. Dylid nodi gwerth y rhoddion a'r lletygarwch.<br>3. Nid oes unrhyw ddolen ar y wefan i roddion a lletygarwch aelodau cyfetholedig ac mae hyn yn rhywbeth y dylid ei ystyried. | 1. Awgrym fod cofnodiadau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer aelodau cyfetholedig;<br>2. A fedrir rhoi cofnodiadau hyfforddiant ar-lein?<br>3. Dylid diweddaru'r cofnodiadau i ddangos faint o sesiynau hyfforddi y gwahoddwyd yr Aelodau iddynt.<br>4. Nid yw nifer o'r aelodau wedi mynychu hyfforddiant gweddarlleddu a dylid annog pob cynghorydd i fynychu'r hyfforddiant hwn.<br>5. Dim llawer o hyfforddiant wedi cael ei gynnal eleni. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| credu bod hyn yn dderbyniol.<br>4. Dim digon o fanylion am y gweithgareddau busnes y maent yn ymwneud â nhw – mae angen disgrifiadau o'r math o fusnesau y maent yn gysylltiedig â nhw.<br>5. Dylai'r rhestr o gyrff allanol a chyrff llywodraethu gynnwys dyddiad penodi.<br>6. Erys anghysonderau rhwng aelodaeth o gyrff allanol, fel y cofnodwyd gan y Cyngor, a'r rheini a ddatganwyd. Nid ydynt yn cael eu datgan yn y ffurflenni bob amser er eu bod yn cael eu rhestru ar dudalen flaen pob Cynghorydd.<br>7. A oes modd symleiddio'r rhestr o gyrff allanol trwy restru enw pob Cynghorydd a'r corff y maent wedi eu penodi i wasanaethu arno.<br>8. Aelodaeth o gyrff allanol yn cael eu rhestru ar adroddiadau blynyddol y Cynghorwyr ond dim bob amser ar y gofrestr sefydlog ac fel arall. Mae angen cysondeb rhwng y gofrestr sefydlog ac adroddiad blynyddol pob cynghorydd.<br>9. Argymhellir sefydlu dolen o ffeil pob aelod ar 'ddatganiadau' i'w | ymatal mewn eraill; mae hyn yn dangos diffyg dealltwriaeth neu efallai bod cynghorwyr yn defnyddio'r diddordeb i osgoi pleidleisio mewn materion cynhennus lle mae ganddynt efallai'r hawl i bleidleisio?<br>7. Nid yw'r holl ddatganiadau a wnaed mewn cyfarfodydd yn ymddangos ar y we – a yw hyn yn fater i'r swyddogion ynteu'r cynghorwyr?<br>8. Rhai datganiadau'n parhau i gael eu gwneud heb fod rhaid, e.e. pan nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod. Byddai'n cwblhau'r trywydd archwilio papur petai'r datganiadau llawysgrifenedig gwreiddiol (fel y cawsant eu cwblhau yn y cyfarfod gan y cynghorwyr) ar gael yn rhwydd ar-lein oherwydd cafwyd problemau gyda chwblhau'r ffurflenni hyn yn y gorffennol.<br>9. Roedd aelod wedi datgan diddordeb personol fel aelod lleol ar fater cynllunio a gadawodd yr ystafell pan oedd y mater yn cael sylw. Dylai aelodau wybod nad yw bod yn aelod lleol yn ddiddordeb personol o fewn y diffiniad yn y côd ac o'r herwydd, nid oes | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hadroddiadau Blynyddol.<br>10. Nid yw rhai aelodau wedi diweddaru eu cofrestrau ers cael eu hethol ym mis Mai 2013 ac felly nid yw cofrestrau'r Aelodau hynny o angenrheidrwydd yn gywir ac yn gyfredol.<br>11. Nid yw Aelodau bob amser yn datgan eu haelodaeth o gyrff amrywiol yn y blychau cywir nac yn cwblhau 2.1-2.6 yn ddigonol bob amser. (Ymddengys bod dryswch rhwng 2.2 a 2.3).<br>12. Nid yw gweithgareddau o ran cyflogaeth bob amser yn cael eu cynnwys yn yr adran gywir.<br>13. Er mwyn symleiddio'r adolygiad, dylid cynhyrchu rhestr ar gyfer pob cynghorydd yn rhoi manylion am eu cyfrifoldebau a'u haelodaeth ar gyrff allanol a phwyllgorau yn y cyngor. | angen datgan diddordeb personol.<br>10. O bryd i'w gilydd, mae aelodau'n datgan diddordeb mewn cyfarfodydd ar lafar ond dim yn cwblhau'r gwaith papur wedyn. | | |